

**CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 4ydd Rhagfyr 2019 yn y Swyddfeydd Dinesig, Canolfan Gymunedol Ffordd Wellington, y Rhyl, yn dechrau am 6.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, A. R. James, A. S. Johnson, B. Jones, K. R. Jones, Mrs P. M. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine, P. Prendergast a T. Thomas.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref  
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y

**38. YMDDIHEURIADAU**

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr J. Ball, Mrs J. Butterfield YH MBE, Ms J. Hughes, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, Miss S. L. Roberts, Ms V. Roberts, R. J. Turner a Miss C. L. Williams.

**39. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) – TACHWEDDAWST 2019**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu atodlen o daliadau a wnaed.

Rhif Taleb	Enw'r Cyflenwr	Swm £	Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau
735	Cymdeithas Gymunedol y Rhyl	2,550.00	Ffi Rheoli CG Tynewydd 19/20 Taliad 3 o 4
868	HSBC	6.50	Taliadau Banc 17 Medi 2019 hyd 16 Hydref 2019
870	Cyngor Sir y Fflint (Cronfa Bensiwn Clwyd)	4,290.48	Cyfraniadau Pensiwn ac Ariannu Diffyg Hydref 2019
869	HMRC	2,743.31	Didyniadau PAYE Hydref 2019
871	Gunsmoke Communications	1,440.00	Ffioedd Rheoli Digwyddiadau Hydref 2019
872	Staff Cyngor Tref y Rhyl	7,174.22	Cyflogau Staff Tachwedd 2019
716	Cyngor Sir Ddinbych	723.00	TANC Swyddfeydd Ffordd Wellington – Taliad 8 o 10
723	Siop Cyngor ar Fudd-daliadau	916.67	Swyddog Apelio Rhan Amser 19/20 Taliad 8 o 12
877	Canda Copying	308.36	Rhentu a Chopiau Du a Gwyn
878	Canda Copying	84.96	Copiau Lliw
	<b>Cyfanswm Taliadau</b>	<b>£20,237.50</b>	

Categori	Disgrifiad	Swm
Llog a Dderbyniwyd	Santander Cyfrif Hysbysu 31 Diwrnod	41.40
Llog a Dderbyniwyd	HSBC 7 Day Money Market	28.79
Llog a Dderbyniwyd	HSBC 7 Day Money Market	28.32
Llog a Dderbyniwyd	HSBC 7 Day Money Market	28.32
Llog a Dderbyniwyd	HSBC 7 Day Money Market	28.32
Incwm Arall	Cyfraniad gan Glwb Lles Brigâd Dan y Rhyl	1,600.00
Incwm Arall	Llungopio	5.00
	<b>Cyfanswm Incwm</b>	<b>1,760.15</b>

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r adroddiad.

**40. AWURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)**

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017 ac yn unol â'r rheoliadau ariannol a fabwysiadwyd gan y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau afreolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen).

Rhif Taleb	Enw'r Cyflenwr	Disgrifiad o'r Gwasanaeth	Swm £
883	Newsquest Media Group	Hysbyseb Pabi 2019	120.00
884	Swyddfa Archwilio Cymru	Ffioedd Archwilio 2018/19	359.34
885	Conrad Office & Art	Cardiau Nadolig y Maer	164.90
886	Fox Robinson	CG Tynewydd CC – Arolwg Adeiladu	594.00
887	Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol	Ffi aelodaeth ar gyfer Mr G Nickels	368.00
<b>Cyfanswm Atodlen B</b>			<b>£1,606.24</b>

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r atodlen ar gyfer ei thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.

**PENDERFYNWYD YMHELLACH** atal y Rheolau Sefydlog er mwyn i Glerc y Dref fedru ymateb fel mater o frys.

**41. AROLWG O REOLIDAAU ARIANNOL Y CYNGOR TREF**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at gyd-adroddiad Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn nodi eu bod wedi arolygu rheoliadau ariannol y Cyngor Tref ac yn argymhell nad oedd angen unrhyw newidiadau ar hyn o bryd.

**PENDERFYNWD** cydnabod yr adroddiad.

**42. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – CIOSGS BT**

Adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn yr uchod (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn cynnig symud ymaith chwe ciosg ffôn cyhoddus yn y Rhyl gan nad oedd digon o ddefnydd.

**PENDERFYNWYD** bod y cynghorwyr yn gwneud eu sylwadau eu hunain i BT os oeddynt yn teimlo'n gryf o blaid neu'n erbyn y cynnig.

**43. EITEM ER GWYBODAETH: ADRODDIAD BLYNYDDOL CRAFFU SIR DDINBYCH**

Adroddodd y Cadeirydd iddo dderbyn y ddogfen uchod (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) ar gyfer 2018/19.

**PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad.

**44. EITEM ER GWYBODAETH I'R AELODAU: EITEM 'THIS IS RHYL' BBC RADIO 1**

Soniodd y Cynghorydd K. R. Jones am eitem gadarnhaol yn ddiweddar ar sioe Nick Grimshaw ar Radio 1 yn gofyn i wrandawyr ffonio a chanu 'this is Rhyl', ac anogodd yr aelodau a thrigolion i ffonio.

**45. EITEM ER GWYBODAETH I'R AELODAU: DOGFEN GWELEDIGAETH Y RHYL**

Adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn copiau o'r ddogfen uchod (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) gan Mr Mike Horrocks o Gyngor Sir Ddinbych.

**46. EITEM ER GWYBODAETH I'R AELODAU: CHRISTMAS POPS**

Dosbarthodd Clerc y Dref docynnau i'r aelodau a oedd eu heisiau a dywedodd y byddai'n dychwelyd y tocynnau dros ben i Ms Sian Davies iddi eu dosbarthu i bobl ar y rhestr aros.

**47. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD** gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried gweddill yr eitem hon yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.

**48. CYLLIDEB FLYNYDDOL / CYNLLUN ARIANNOL PUM MLYNEDD**

Cyflwynodd Clerc y Dref yr uchod, fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol (CSG) (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) i'r aelodau ei hystyried, ei newid a'i chymeradwyo, a oedd yn cynnwys cynllun adfer cronfeydd wrth gefn pum mlynedd diwygiedig a phraesept a awgrymwyd ar gyfer blwyddyn

ariannol 2020/21, gyda'r holl beth i'w gyflwyno i gyfarfod y Cyngor ar 18fed Rhagfyr i'w gymeradwyo'n derfynol.

Tynnodd Clerc y Dref sylw'r aelodau at ddau faes a oedd angen eu hystyried – yr estyniad arfaethedig 12 mis i gontract Gunsmoke Communication i ddarparu rhaglen digwyddiadau bach y Cyngor Tref a chysylltiadau cyhoeddus a marchnata; a'r cynnig o ostyngiad £5k i'r gyllideb Cynnal a Chadw Tiroedd, diolch i arbedion parhaus a wnaed gan yr Is-bwyllgor Cynllun a Chadw Tiroedd a chynnydd o ganlyniad yn y Gyllideb Wrth Gefn.

Roedd Clerc y Dref hefyd yn falch o gyhoeddi gostyngiad pellach i'r cynnydd a gynlluniwyd yn y braesept o 4.5% i ddim ond 0.12% oherwydd arbedion a wnaed ym mhob cyllideb a chynnydd yn sylfaen eiddo'r Rhyl o 177 eiddo yn 2019/20. Mae'r cynnydd o 0.12% yn cyfateb i 7g fesul aelwyd y flwyddyn.

Mae'r adroddiad hefyd yn nodi cynnydd yn erbyn Cynllun Adfer Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol pum mlynedd y Cyngor.

**PENDERFYNWYD** bod y Cyngor yn cael ei argymell i gymeradwyo:

- (a) yr estyniad blwyddyn yn y contract Digwyddiadau Bach;
- (b) gostyngiad yn y Gyllideb Cynnal a Chadw Tiroedd gyda chynnydd cyfatebol yn y Gyllideb Wrth Gefn.

Ac argymell bod y Cyngor yn cymeradwyo:

- (c) Newid y Cynllun Adfer Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol pum mlynedd fel y nodir yn yr adroddiad.
- (d) Bod y Cyngor yn cymeradwyo praesept i'w godi ar Gyngor Sir Ddinbych o £554,291. Byddai hyn yn cynrychioli cynnydd o 2% ar braesept 2019/20 ond byddai'n gofyn am gynnydd ar gyfer eiddo Band D o £0.07 neu 0.12% ar gyfer y flwyddyn oherwydd y cynnydd yn y sylfaen eiddo.

#### **49. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, bu i'r Cadeirydd ddirwyn y cyfarfod i ben.

Cadeirydd: .....

Dyddiad: .....